

Galw Am Weithredu: Trechu Tlodi

Pam rydym yn canolbwyntio ar blant sy'n byw mewn tlodi?

Yn Chwaraeon Cymru, ein dyhead yw cael pob plentyn i wirioni ar chwaraeon am oes ac i Gymru fod yn genedl o bencampwyr. Rydym yn credu'n gryf bod gan chwaraeon ran bwysig i'w chwarae mewn gwella cyfleoedd bywyd a gwella dyheadau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

Mae tlodi'n arwain at ganlyniadau addysg, iechyd ac ymddygiad o safon is i unigolion. Hefyd mae tlodi'n eithriadol gostus i gymdeithas, oherwydd cynhyrchiant economaidd is, llai o gydlyniant cymdeithasol a mwy o ofnyion ar wasanaethau cyhoeddus fel gofal iechyd a gwasanaethau plant. Mae'r lefel is o sgiliau, iechyd gwael a thlodi uchelgais y mae cyni'n eu creu yn rhwystr i botensial economi Cymru¹. Mae dileu tlodi plant erbyn 2020 yn parhau'n flaenoriaeth sylfaenol i Lywodraeth Cymru ac adlewyrchir yr ymrwymiad hwn yn ei dogfen 'Mynd i'r afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau ar gyfer Awdurdodau Cymreig'².

Mae tlodi plant yn cyfyngu ar ddyheadau a phrofiadau bywyd ac yn arwain at lai o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Mae plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi'n profi canlyniadau iechyd, cyflawniad addysgol a rhagolygon economaidd o safon is na'u cyfoedion cyfoethocach.

Rydym yn gwybod bod plant ac oedolion o gymunedau mwy difreintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Mae rhoi sylw i dlodi ac anghydraddoldeb ymhlith plant a phobl ifanc yn hanfodol nid yn unig i'w cyfle hwy eu hunain i gael y gorau o'u bywydau, ond hefyd o ran beth maent yn gallu ei gyfrannu at gymdeithas yn ehangach³. Mae Chwaraeon Cymru yn credu y dylai pawb yng Nghymru fwynhau'r manteision cadarnhaol y mae cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon yn eu cynnig, dim ots am gefndir nac amgylchiadau.

Y sefyllfa bresennol o ran cymryd rhan

Ers 2011, mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol wedi casglu manylion am amledd y cymryd rhan, fel ein bod yn gallu edrych ar sawl gwaith yr wythnos y mae disgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden trefnus, y tu allan i'r cwricwlwm. Yng Nghymru, mae 40% o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 3 i 11 yn cymryd rhan mewn gweithgaredd trefnus y tu allan i amser y cwricwlwm (h.y. mewn chwaraeon allgyrsiol neu glwb) deirgwaith neu fwy yr wythnos. Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn cyfeirio at hyn fel bod '*wedi gwirioni ar chwaraeon*'.

Er bod mwy o ddisgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon yn awr, ceir bylchau ac anghydraddoldeb o hyd yn lefel y cymryd rhan a'r mynediad at chwaraeon. Yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol, defnyddir 'Cael cinio ysgol am ddim' fel mesur procsi o statws cymdeithasol-economaidd plant ysgol yng Nghymru. Gan ddefnyddio data sydd wedi'u darparu o Gyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion


¹ Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi 2012-2016 <http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/?skip=1&lang=cy>

² Mynd i'r Afael â Thlodi Plant: Canllawiau a Rheoliadau i Awdurdodau Cymreig: <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/child-poverty/tacklingchildpoverty/?skip=1&lang=cy>

³ Strategaeth Tlodi Plant Chwaraeon Cymru 2012-2015

Llywodraeth Cymru⁴, gosodir yr ysgolion yn yr arolwg mewn chwarterl Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd). Mae gan chwarterl PYADd 1 ganran isel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn PYADd 4, ceir canran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys, a gellir eu hystyried gryn dipyn yn fwy difreintiedig. Mae Ffigur 1 isod yn dangos canran y disgyblion sydd wedi gwirioni ar chwaraeon yn ôl y chwarterl PYADd y maent ynddo.

Ffigur 1: Wedi gwirioni ar chwaraeon yn ôl lefel gymharol o gynt




Er gwaetha'r cynnydd sydd wedi bod ers 2011, mae'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion sy'n fwy difreintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos.

Beth rydym yn ei wybod am fynediad plant at chwaraeon a lefel o gynt?

Mae ysgolion yn chwarae rhan hanfodol ar hyn o bryd mewn darparu cyfleoedd chwaraeon ffurfiol i ddisgyblion nad ydynt yn gallu cael cyfleoedd o'r fath yn y gymuned, drwy ddarparu cyfleoedd addysg gorfforol gwricwlaidd a chwaraeon allgyrsiol. Gall hyn helpu i ddarparu mynediad yn yr ysgol ond rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud i sicrhau bod pob disgybl yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon yn y gymuned. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n mynychu ysgolion lle mae canran uchel o boblogaeth yr ysgol yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn llawer llai tebygol o fod yn aelodau o glybiau chwaraeon cymunedol na'r disgyblion mewn ysgolion llai difreintiedig, gyda bwlch o 16 pwynt canran rhwng PYADd 1 a 4. Nid mynediad i glybiau chwaraeon yw'r unig broblem – mae disgyblion mewn ysgolion mwy difreintiedig yn llai tebygol hefyd o ddefnyddio pyllau nofio neu ganolfannau hamdden ar gyfer chwaraeon ac ymarfer. Mae Ffigur 2 isod yn dangos y gwahaniaethau yn ôl lefel y cyni.


⁴ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/pupillevelannualschoolcensus/?lang=en>

Ffigur 2: Mynediad i gyfleusterau ar gyfer chwaraeon neu ymarfer a lefel gymharol o gyni



I'r gwrthwyneb, mae mathau eraill o gyfleusterau yr un mor debygol o gael eu defnyddio ar gyfer chwaraeon ac ymarfer. Mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion yn defnyddio parciau, strydoedd a chanolfannau cymunedol ar gyfer chwaraeon ac ymarfer, ac mae disgyblion mewn ysgolion lle ceir cyfrannau uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ychydig yn fwy tebygol nag eraill o ddefnyddio canolfan gymunedol ar gyfer chwaraeon/ymarfer. Mae Ffigur 3 yn dangos y canlyniadau.

Ffigur 3: Canran y disgyblion sy'n defnyddio cyfleusterau ar gyfer chwaraeon neu ymarfer, a chyni cymharol




Mae'r darlun mwy cyfartal yma o fynediad i gyfleusterau lle mae chwaraeon ac ymarfer yn gallu cael eu cynnal yn awgrymu bod y cyfleoedd a gynigir drwy gyfrwng y lleoliadau hyn yr un mor bwysig â chlybiau chwaraeon o ran darparu cyfleoedd chwaraeon hygyrch mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Er hynny, mae angen o hyd i glybiau, canolfannau hamdden a phyllau nofio ystyried sut orau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer chwaraeon i bawb, dim ots beth yw eu cefndir na'u hamgylchiadau.

Cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon a thlodi

Dangosodd ein Harolwg ar Chwaraeon Ysgol bod dylanwad rhieni a chyfoedion yn ffactor bwysig o ran y tebygolrwydd o gael disgyblion 'wedi gwirioni ar chwaraeon'⁵, a bod mwy o siawns i ddisgyblion fod yn ymwneud â chwaraeon os yw eu rhieni a'u ffrindiau'n cymryd rhan hefyd. Mae disgyblion 32% yn fwy tebygol o fod 'wedi gwirioni ar chwaraeon' os yw eu tad yn cymryd rhan mewn chwaraeon, 27% yn fwy tebygol os yw eu mam yn cymryd rhan mewn chwaraeon a 23% yn fwy tebygol os yw eu ffrindiau'n cymryd rhan mewn chwaraeon.

Mae'n glir bod dylanwad teulu'n chwarae rhan fawr mewn creu cyfleoedd i blant gymryd rhan, ond rydym yn gwybod bod oedolion sydd â lefelau incwm is yn llai tebygol o fod yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Efallai fod teuluoedd sy'n profi tlodi yn wynebu rhwystrau niferus o ran cynyddu eu mynediad at chwaraeon a hamdden gorfforol. Mae Ffigur 4 isod yn dangos y cyswllt rhwng incwm a chymryd rhan mewn chwaraeon ac aelodaeth o glybiau.

Ffigur 4: Arolwg 2012 ar Oedolion Egniol – Wedi gwirioni ar chwaraeon ac aelodaeth o glybiau chwaraeon ac incwm cartref



Ceir patrwm clir o lefelau cymryd rhan cynyddol yn unol ag incwm cynyddol, a cheir hefyd lefelau cynyddol o aelodaeth o glybiau chwaraeon gyda mwy o incwm⁶. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu'n uniongyrchol y darlun ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol.

Hefyd, mae Arolwg 2012 ar Oedolion Egniol yn dangos yn fras bod canran yr oedolion sy'n gwirfoddoli mewn chwaraeon yn cynyddu yn unol â lefel incwm. Gyda gwirfoddolwyr yn rhan gwbl hanfodol o'r gweithlu sydd ei angen er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno chwaraeon, mae hyn yn golygu bod diffyg gallu efallai mewn

⁵ <http://www.sportwales.org.uk/media/1194537/theme2.pdf>

⁶ Rydym yn nodi bod lefelau uwch o gymryd rhan yn y band incwm cyntaf o gymharu â'r ail. Ceir cyfrannau uwch o fyfyrwyr yn y band incwm yma, ac rydym yn gwybod bod oedolion ifanc yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon nag oedolion hŷn. Efallai hefyd fod llai o gyfleoedd i sicrhau mynediad at chwaraeon i bobl yn y band yma, a allai gyfrif am y gwahaniaeth bychan hwn.

cymunedau mwy difreintiedig i ddarparu'r nifer cynyddol o gyfleoedd sydd eu hangen i roi sylw i'r bylchau hyn mewn cymryd rhan.

Beth rydym yn ei wneud i roi sylw i'r materion hyn?

Mae Chwaraeon Cymru wedi llunio Strategaeth Tlodi Plant ar gyfer 2012-2015. Rydym yn sylweddoli bod teuluoedd sy'n wynebu tlodi 'mewn gwaith' yn wynebu tlodi o ran amser yn ogystal ag arian, oherwydd patrymau gwaith neu ddiffyg gofal plant. Felly, mae'n rhaid i ni edrych ar sut mae gwneud gwirfoddoli'n agored i bawb ac yn gynhwysol. Rydym yn gwybod hefyd bod gwirfoddoli'n gallu cefnogi datblygiad sgiliau newydd a gwella cyflogadwyedd.

Mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod y rhan allweddol y mae hyfforddwr a gwirfoddolwyr yn ei chwarae mewn hwyluso chwaraeon ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Boed yn sefydlu tîm newydd mewn ardal neu'n darparu help gyda chludo plentyn neu berson ifanc i'r cyfle, maent yn gallu chwarae rhan allweddol mewn sicrhau bod cyfleoedd chwaraeon yn hygyrch. Mae'r sector chwaraeon yn gyflogwr allweddol yng Nghymru ac rydym eisiau dal ati i geisio datblygu gweithlu hynod fedrus yng Nghymru⁷.

Cyllid Galw Am Weithredu

Drwy raglen *Galw Am Weithredu*, mae Chwaraeon Cymru yn galw am geisiadau yn awr ar gyfer cyllido prosiectau arloesol, effaith uchel a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i oresgyn y rhwystrau sy'n atal y grwpiau hyn a dangynrychiolir rhag cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon, gan greu cyfleoedd am etifeddiaeth barhaus yn sgil Glasgow 2014 i bawb yng Nghymru. Mae Chwaraeon Cymru eisiau gweld dulliau beiddgar a newydd o weithredu'n cael eu rhoi ar waith ac eisiau helpu unigolion a sefydliadau sy'n gallu cynnig syniadau newydd a ffyrdd newydd o gael mwy o bobl i ymwneud â chwaraeon.

Nid yw anghydraddoldeb mewn cymryd rhan rhwng gwahanol grwpiau yn anochel ac mae posib ei drechu. Mae'n rhaid i ni wneud hynny. Eleni, mae gan Gymru gyfan gyfle i gefnogi ein Tîm ni yng Ngemau'r Gymanwlad, a bod yn rhan o dîm o dair miliwn o bobl. Bydd *Galw Am Weithredu* yn ceisio sicrhau bod pob un ohonom ni hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalennau Galw Am Weithredu ar y we:

<http://www.sportwales.org.uk/funding--support/our-grants/calls-for-action.aspx>

⁷ Strategaeth Tlodi Plant Chwaraeon Cymru 2012-2015